

Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr esthetig sy'n defnyddio laser, ffynonellau golau cryf, deuodau pelydru golau dwysedd uchel a theclynnau egni esthetig ar gyfer llunieuangu'r croen. Hefyd bydd yn rhaid ichi gynnal gwerthusiad ar ôl y driniaeth ar gyfer gofalu bod eich gwaith chi'n gwella yn barhaus ac er mwyn anghenion y cleient yn y dyfodol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. rhoi arferion ymgynghori, iechyd, diogelwch a glanweithdra ar waith drwy gydol y driniaeth
2. cytuno ar **amcanion y driniaeth** gyda'r cleient
3. paratoi'r **man triniaeth** yn dilyn protocol y driniaeth
4. dewis y newidynnau o ran offer a defnyddio offer yn unol â phrotocol y driniaeth a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
5. trin y croen er mwyn cael y deiliant gorau posib yn dilyn y driniaeth, yn dibynnu ar y **man triniaeth** a phrotocol y driniaeth
6. dilyn protocol y driniaeth er mwyn ymdrin â **man y driniaeth**
7. gwirio lles eich cleient a monitro adwaith y croen drwy gydol y driniaeth
8. rhoi'r cynllun gweithredu priodol ar waith pan fo adwaith niweidiol i'r driniaeth
9. cwblhau'r driniaeth drwy ofalu bod yr offer wedi'u diffodd neu'n ddiogel
10. tynnu lluniau fel tystiolaeth o'r **man triniaeth** gan ddilyn gweithdrefnau cyfundrefnol
11. cwblhau cofnodion y cleient a'u cadw yn unol â'r ddeddfwriaeth data
12. defnyddio dulliau gwerthuso a gafodd eu cytuno fel rhan o brotocol y driniaeth
13. casglu a chofnodi'r wybodaeth o adborth y cleient, cofnodion y cleient a'ch arsylliadau eich hun
14. cynnig cyngor ac argymhellion ar lafar ac yn ysgrifenedig i'ch cleient ynghylch yr ôl-ofal ar ôl y driniaeth
15. cytuno ar unrhyw addasiadau ar gyfer triniaethau yn y dyfodol gyda'ch cleient a chofnodi deiliant eich gwerthusiad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. yr ymgynghoriad a'r gofynion iechyd, diogelwch a glanweithdra wrth gynnal triniaethau llunieuangu
2. pam ei fod yn bwysig fod gennych chi olau da yn y man dan reolaeth a goleuo'r man triniaeth
3. cynnal a chadw a defnyddio offer a thechnegau marcio yn gywir
4. y gwahanol fathau o ddulliau oeri cymeradwy a phryd a sut i'w defnyddio
5. paratoi man(nau) triniaeth i'w trin a sut gall hyn amrywio yn unol â phrotocol y driniaeth a chyfarwyddyd y gwneuthurwr
6. y rhesymau dros drin y croen yn ystod y driniaeth
7. buddion a manylebau gwahanol fathau o declynnau laser, ffynonellau golau cryf, deuodau pelydru golau dwysedd uchel a dyfeisiau'n seiliedig ar egni esthetig
8. sut caiff allbynnau teclynnau golau a laser eu disgrifio a'u mesur yn gysylltiedig â'r sbectwm electromagnetig
9. labeli ufuddhau, dosbarthiad, gwasanaeth gwneuthurwr, cynnal a chadw i ddefnyddwyr a rhybuddion ar declynnau laser, ffynonellau golau cryf, deuodau pelydru golau dwysedd uchel ac egni esthetig
10. craidd o wybodaeth yn ymwneud â defnyddio teclynnau laser
11. swyddogaeth cynghorydd diogelu rhag laser
12. y gofynion deddfwriaethol o ran pelydriad optegol
13. achosion a pheryglon datgeliad damweiniol i belydredd optegol
14. sut i weithredu amcanion y driniaeth yn dilyn protocol y driniaeth, gan gynnwys:
 - 14.1 gwraidd a diben protocol y driniaeth a phwysigrwydd cydymffurfio gydag o
 - 14.2 cynnwys protocol y driniaeth gan gynnwys arwyddion y driniaeth ac **adweithiau niweidiol**
15. gweithdrefnau monitro ar gyfer gwirio man y driniaeth a lles y cleient
16. nodweddion pelydriad optegol a sut mae'n ymadweithio gyda'r cromoffor bwriadedig
17. egwyddorion ymadweithio rhwng golau a meinweoedd a photothermolysis ddetholus
18. peryglon posib teclynnau laser, ffynonellau golau cryf, deuodau pelydru ffynonellau golau dwysedd uchel ac egni esthetig
19. arwyddocâd cyfreithiol cyflwyno lluniau fel tystiolaeth o'r man triniaeth
20. yr **anatomi a ffisioleg** sy'n berthnasol i'r safon hon
21. gofynion cyfreithiol cwblhau a storio cofnodion cleientiaid
22. y deilliannau clinigol disgwylidig yn sgil llunieuangu'r croen yn defnyddio teclynnau laser, ffynonellau golau cryf, deuodau pelydru golau dwysedd uchel ac egni esthetig
23. hanfodion asesiad dermatolegol o'r croen a chyflwr y croen ar gyfer triniaethau llunieuangu diogel
24. diben gweithgareddau gwerthuso
25. sut i gasglu, dadansoddi, crynhoi a chofnodi adborth gwerthuso mewn ffordd eglur a chryno
26. **cyngor ac argymhellion** yr ôl-ofal ynghlwm â nwyddau a thriniaethau

Cwmpas/Ystod

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae disgwyl y bydd yr unigolyn sy'n cynnal y safon hon eisoed yn meddu ar y sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau sydd wedi'u hadnabod yng nghanllaw triniaeth yr ymarferwr esthetig neu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol estheteg.

Mae disgwyl y bydd yr unigolyn eisoed yn medru dangos cymhwysedd yn pennu gwrtharwyddion perthynol (cyfyngol) ac absoliwt (ataliol) ar gyfer y safonau esthetig maen nhw'n eu cynnal.

Mae disgwyl y caiff y safon hon ei gweithredu ar y cyd ag SKABA1 – Cynnal arferion gwaith diogel, hylan ac effeithiol yn ystod triniaethau esthetig ac SKABA2 – Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau esthetig.

Dylid dangos tystiolaeth o'r eitemau sydd wedi'u rhestru o dan y maes/ystod yn unol â'r math penodol o driniaeth gaiff ei gynnal.

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

****Amcanion y driniaeth**** 1. gwella golwg y croen sydd wedi'i effeithio gan ffactorau cynhenid ac anghynhenid 2. triniaeth acne 3. triniaeth anafiadau arwahanol a chyffredinodedig pigmentog a gwaedlestrol anfalaen ****Man triniaeth**** 1. pen, wyneb a gwddf 2. corff 3. breichiau neu goesau

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Adweithiau niweidiol

1. croen yn mynd yn llwyd neu'n wyn yn ormodol
2. anafiadau'n newid lliw
3. hyperemia a llidau
4. pothellu
5. gor-bigmentiad a hypo-bigmentiad
6. oedema gormodol
7. anesmwythder gormodol
8. cleisio gormodol
9. creithio
10. diferu a chroenio
11. llosgiadau
12. anafiadau i'r llygaid sydd angen ei gyfeirio at wasanaeth meddygol
13. pendro
14. llewygu

*

*

Anatomi a ffisioleg

1. strwythur a swyddogaethau systemau'r corff a'u cyd-ddibyniaeth ar ei gilydd
2. strwythur a swyddogaethau y croen ac ychwanegiadau'r croen
3. clefydau, anhwylderau a chyflyrau'r croen
4. proses heneiddio'r croen gan gynnwys effeithiau geneteg, ffordd o fyw a'r amgylchedd
5. proses iachau'r croen a chlwyfau

Cyngor ac argymhellion

1. hawliau cyfreithiol a chyfrifoldebau'r cleient a'r ymarferwr
2. cynnal triniaethau
3. disgwyliadau ar ôl y triniaethau ynghyd â graddfeydd amser cysylltiedig
4. cyfyngiadau a gwrth-weithrediadau
5. nwyddau a thriniaethau ychwanegol

Geirfa

Sbectrwm Electromagnetig

Yr ystod o egniïon neu belydriadau sy'n gynnwys pelydrau gama, pelydrau X, Uwchfioled a thonau gweledol, is-goch a radio. Mae laserau a systemau golau cryf fel arfer yn pelydru pelydrau yn rhan is-goch, gweledol neu Uwchfioled y sbectrwm electromagnetig. Ar y cyd cânt eu galw'n 'belydriadau optegol'.

* *

Newidynnau offer

Elfen, nodwedd neu reolaeth all amrywio ac addasu'r gallu gweithredol.

* *

Ffynonellau golau cryf

Caiff ei adnabod fel Golau Curiadau Dwys hefyd. System fflachlamp, (Senon yn nodweddiadol) yn cynhyrchu golau digyswllt sbectrwm eang. Mae hidlyddion yn cael gwared ar donfeddi diangen a throsglwyddo'r rheiny sy'n angenrheidiol ar gyfer y driniaeth yn unig. Caiff ffynonellau golau cryf eu defnyddio i dargedu ystod o gromofforau yn dibynnu ar yr hidlyddion caiff eu defnyddio.

Laser

Chwyddo golau drwy Belydriad Cyffroedig Pelydriad. Caiff pelydriad laser ei ddisgrifio'n nodweddiadol fel un monocromatig, cydlynol a dargyfeiredd isel.

Man rheoledig laser/golau

Man rheoledig o amgylch y teclyn laser/golau lle mae'n bosib y bydd pobl yn bresennol lle gall beryglon ddigwydd a lle mae angen mesurau rheoli amddiffynnol penodol.

Deuodau Pelydru Golau Dwysedd Uchel

Mae deuodau pelydru golau yn cynhyrchu golau sbectrwm eang, digyswllt o ddeunyddiau lled-ddargludyddion (deuodau) pan fo cerrynt trydanol yn treiddio trwyddyn nhw. Dydyn nhw ddim yr un peth â laserau deuod. Gall deuodau pelydru golau esthetig gynhyrchu pelydriadau electromagnetig dwysedd uchel gyda ffynhonnell golau sy'n cynhyrchu allbwn dros 500 miliwatt, yn debyg i Laser dosbarth 4 neu Olau Curiadau Dwys.

Protocol y driniaeth

Cynllun yw hwn, sy'n gosod protocol penodol yn ymwneud â theclynnau a thriniaethau, gan adnabod gwiriadau a phrofion cyn y driniaeth, y modd gaiff y driniaeth ei chynnal, newidynnau derbyniol, safleoedd â gaiff eu defnyddio, y deiliant disgwylidiedig a phryd dylid addasu neu roi'r gorau i'r driniaeth.

Cysylltiadau â SGC eraill

SKABA4

Cynnal triniaeth llunieuangu'r (photo rejuvenation) croen gan ddefnyddio
teclynnau laser, golau ac egni esthetig



SKABA1, 2, 3, 5, 6, 7, 8, 9, 10 and 11

SKABA4

Cynnal triniaeth llunieuangu'r (photo rejuvenation) croen gan ddefnyddio teclynnau laser, golau ac egni esthetig



Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	04 Maw 2019
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Ion 2021
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKABT28
Galwedigaethau perthnasol	Therapydd Harddwch
Cyfres/Set	Estheteg Harddwch
Geiriau Allweddol	arbenigwr croen, laser, golau pwls dwys, IPL, ffynonellau golau dwys, ILS, LED, dyfeisiau seiliedig ar ynni, deuodau allyrru golau, adfywiad y croen, ymarferwyr anfeddygol, ymarferwyr meddygol, ieuangu'r croen, adnewyddu'r croen